

# Gweithiwr Cymdeithasol, lefel  2 neu 3, gyda chymhwyster Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesionyl Cymeradwy yn ddelfrydol

## LA 37 oriau

Cyflog : G06 - £39,152.00-£41,771.00
Sseiliedig : Rowley's Drive, Shotton, Flintshire

Gweithiwr Cymdeithasol, lefel 2 neu 3, gyda chymhwyster Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn ddelfrydol

Mae cyfle cyffrous wedi codi ar gyfer Gweithiwr Cymdeithasol llawn amser/parhaol o fewn Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Sir y Fflint, yng Nglannau Dyfrdwy.

Mae'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau'n fenter ar y cyd rhwng Cyngor Sir y Fflint, Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.  Mae'r bartneriaeth hon yn gweithio'n dda ac yn dod â thîm amlddisgyblaeth at ei gilydd i gynnig ymateb eang i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u gofalwyr.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth i bobl ar draws Sir y Fflint i gyflawni canlyniadau gofal cymdeithasol cytunedig.

Rydym yn chwilio am unigolyn dynamig, llawn cymhelliant a brwdfrydig a fydd yn gweithio ar y cyd â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a thrydydd partïon.  Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddarparu ymyraethau asesu a thriniaeth cynhwysfawr i unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys asesu risg, defnydd, gofal cymdeithasol ac effeithiau seicolegol.  Gweithio fel ymarferydd annibynnol yn y gymuned, gan gynnwys cartrefi defnyddwyr gwasanaeth.  Bydd deiliad y swydd yn rheoli llwyth achosion ac yn cefnogi unigolion drwy gydol eu triniaeth o fewn y gwasanaeth.

Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus hawl i wyliau hael, pensiwn, gostyngiadau gan gannoedd o siopau ledled y DU, polisïau ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith, cyfleoedd i ddatblygu a llawer mwy.

I gael rhagor o wybodaeth neu sgwrs am y swydd, cysylltwch â:

Pam Wilkinson, Dirprwy Reolwr Tîm, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Sir y Fflint
Pam.Wilkinson@nhs.wales.uk

Nikki Lothian, Rheolwr Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Sir y Fflint nikki.lothian@nhs.wales.uk

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL